



# Temple

## Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Cytundeb Microrandir

### Rhagarweiniad

---

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyfres o daflenni ffeithiau sy'n ehangu ar bynciau amrywiol sy'n cael sylw yn y Canllawiau.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn cynnwys detholiad o dempledi sampl tenantiaeth a dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

[www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit](http://www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit)

### Sut i ddefnyddio'r cytundeb hwn

Gellir defnyddio'r cytundeb enghreifftiol hwn i reoli gosod is-leiniau bach i arddwyr newydd sbon neu ddechreuwr neu i eraill ar y rhestr aros wrth iddynt ddisgwyl am lain lawn neu hanner maint. Gellir ei ddiwygio'n rhwydd i fodloni amgylchiadau ymarferol unrhyw safle rhandiroedd.

Rydym yn awgrymu eich bod yn cyhoeddi dau gopi: un i'w gadw gan ddeiliad y plymiwr ac un i'w lofnodi gan y deiliadwr a'i ddychwelyd ynghyd â thalu'r rhent y cytunwyd arno ar gyfer y llain.



## Testun cyflwyno awgrymedig

Sefydlwyd y microrandiroedd er mwyn darparu llain fach i arddwyr newydd sbon roi cynnig ar dyfu llysiau. Dylid darparu un llain fesul unigolyn, neu uchafswm o ddwy ar gyfer teulu. Trwy hyn gellir rhoi caniatâd i ddeiliaid rhandiroedd newydd ddod i'r safle ac mae'n sicrhau y dyrennir y lleiniau tyfu mewn ffordd deg.

## Mae deiliaid y rhandir yn cytuno i:

1. Gadw'r microrandir a'r llwybrau o'i gwmpas mewn cyflwr da trwy gydol y flwyddyn. Os nad ydych yn gallu trin eich llain am unrhyw reswm, dylech ein hysbysu - hwyrach y byddwn yn gallu helpu. Os nad ydych yn cysylltu â ni ynghylch llain nad yw'n cael ei thrin, byddwn yn rhoi mis o rybudd ichi cyn ei throsglwyddo i rywun arall ar ein rhestr aros.
2. Tyfu mewn ffordd organig, heb ddefnyddio plaladdwyr neu wrtaith cemegol, na chompost sy'n deillio o fawn.
3. Cydweithio gyda defnyddwyr eraill ar y safle i gynnal amgylchedd diogel a dymunol.
4. Talu £10 y flwyddyn (Ionawr - Rhagfyr) i [noder enw'r Gymdeithas] ar gyfer pob llain.
5. Mynychu o leiaf un o'r dyddiau gwirfoddoli bob blwyddyn. Diben y dyddiau hyn yw tacluso'r safle, cwrdd â deiliaid rhandiroedd eraill, rhannu cyngor a thrafod unrhyw welliannau neu broblemau. Cyhoeddir y dyddiadau ar [Facebook/ein gwefan ac ar hysbysfwrdd y safle – i'w ddiwygio fel sy'n briodol].
6. Defnyddio dŵr glaw o'r casgenni dŵr, ond NID dŵr o'r tap (oherwydd mae'n ddrud).
7. Defnyddio offer llaw yn unig.
8. Gweithio mewn ffordd ddiogel bob amser.
9. Rhoi gwastraff planhigion ar bentwr compost y microrandiroedd a mynd ag unrhyw sbwriel arall adref.
10. Ni chaniateir cael coelcerth, ar wahân i ddigwyddiadau a drefnir - maent yn niweidiol i'r berthynas gyda'n cymdogion a'r amgylchedd.

## Gall deiliaid y rhandiroedd:

1. Ddefnyddio offer llaw o'r sied; dylid eu glanhau cyn eu dychwelyd.
2. Defnyddio'r man eistedd, y barbeciw a'r ffwrn tu allan.
3. Defnyddio'r toiled compost ar safle'r rhandiroedd.
4. Defnyddio cynnyrch dros ben a roddwyd ar y 'bwrdd cyfnewid' neu a hysbysebwyd ar yr hysbysfwrdd sydd ar gael i'w hel at ddefnydd personol.
5. Dod â chi i'r safle, os cedwir y ci ar dennyn bob amser, a glanhau unrhyw faw ar unwaith.
6. Gofyn cyngor gan unrhyw un yn ogystal â chyfrannu eich syniadau eich hun.

## Gofynnir ichi lenwi'r dudalen hon o'r cytundeb a'i dychwelyd gyda'ch taliad at:

.....  
Gallwch dalu gyda [siec, cerdyn neu arian parod – i'w ddiwygio fel sy'n briodol].

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, croeso ichi gysylltu â: .....

Rhif y llain: .....

Rwyf yn derbyn y cytundeb uchod ar gyfer microrandiroedd.

Llofnod: .....

Dyddiad: ...../...../.....

Enw: .....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad: .....

Ebost: .....



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Social **Farms**  
& **Gardens**  
**Ffermydd a Gerddi**  
Cymdeithasol



**Ffon:** 02920 225 942 / **Ebost:** [wales@farmgarden.org.uk](mailto:wales@farmgarden.org.uk)  
**Website:** [www.farmgarden.org.uk](http://www.farmgarden.org.uk)